## DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB Y PERSON

| **Teitl y Swydd** | **Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu** |
|---|---|
| **Lleoliad** | Rhyddid i weithio o bell ac yn ein swyddfa yng Nghaerdydd |
| **Yn atebol i** | Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd (IAD) |
| **Band Cyflog** | Gradd 6 |
| **Cyflog** | £70,545 y flwyddyn |
| **Is-weithwyr Uniongyrchol** | 4 |

## Gwybodaeth am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Nod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw sicrhau mai Cymru yw'r gyrchfan flaenllaw ar gyfer arloesi ym maes iechyd, gofal a llesiant. Fel catalydd dros newid, rydyn ni'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu datrysiadau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ar hyd a lled y wlad. Mae ein cenhadaeth yn cynnwys:

- Cynnull diwydiant, gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r byd academaidd i rannu syniadau, nodi anghenion, a meithrin cydweithio.
- Integreiddio'r ecosystem arloesi, gan osod Cymru fel sbardun pwerus ar gyfer arloesi ym maes iechyd.
- Cyflymu'r broses o fabwysiadu datrysiadau trawsnewidiol i sbarduno newid yn y system.
- Eirioli dros iechyd a llesiant economaidd, codi proffil Cymru, a denu buddsoddiad

**Ein Gwerthoedd:**

- **Angerdd** – Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth drwy arloesi effeithiol yng Nghymru.
- **Cydweithredu** – Rydyn ni'n ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'n cydweithwyr i sbarduno newid.
- **Arbenigedd** – Rydyn ni'n rhagori yn ein set sgiliau amrywiol, gan ddefnyddio ein harbenigedd i gyflawni nodau uchelgeisiol.
- **Proffesiynoldeb** – Rydyn ni wedi ymrwymo i ragori ym mhopeth a wnawn.

## PRIF BWRPAS Y SWYDD

Fel cyfathrebwr proffesiynol ac eithriadol ar lefel uwch, arwain y gwaith o farchnata a chyfathrebu strategol, gyda chymorth gan y tîm gweithredol i sicrhau bod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cyfleu manteision, cyfraniad a chynnig gwerth ychwanegol y sefydliad. Byddwch yn canolbwyntio ar y canlynol:-

- **Codi** proffil Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fel arweinydd ym maes arloesi iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Arddangos** gwyddorau bywyd Cymru; rhoi llwyfan i randdeiliaid gael rhannu straeon llwyddiant, astudiaethau achos ac adnoddau.
- **Cryfhau** ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o gyfleoedd i weithio ar y cyd yng Nghymru gan gefnogi'r broses o drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol.

- **Cydweithio** â sefydliadau partner i ddatblygu a chefnogi ymgyrchoedd strategol.

## PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

### Marchnata a Chyfathrebu

- Datblygu a gweithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r sefydliad.
- Arwain a chyflwyno cynllun aml-sianel sy'n ysbrydoli ac yn ymgysylltu, gan ystyried yr holl lwyfannau perthnasol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i'w lawn botensial.
- Cydweithio'n rhagweithiol ac adeiladu rhwydwaith o berthnasoedd strategol, gan adeiladu rhwydweithiau eiriolaeth i ddarparu ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n hyrwyddo Gwyddorau Bywyd yng Nghymru.
- Nodi ac ehangu negeseuon allweddol sy'n atgyfnerthu ein gweledigaeth ac yn meithrin ein henw da.
- Rhoi cyngor i gydweithwyr fel ymgynghorydd dibynadwy.
- Gweithredu fel prif hyrwyddwr y brand, gan sicrhau cysondeb ar draws yr holl sianeli a'r mannau cyswllt.
- Arwain gweithgareddau wedi'u targedu gan sicrhau bod ein negeseuon a'n sianeli'n cael yr effaith fwyaf bosib.
- Gweithredu fel llefarydd a llysgennad ar ran y sefydliad.
- Arwain cyfathrebiadau ar gyfer rhaglenni a phartneriaethau sy'n cael eu cynnal, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â strategaethau sefydliadol a gofynion cyllidwyr.
- Gweithredu dull sy'n cael ei arwain gan ddata i broffilio cynulleidfaoedd, gan greu strategaethau ymgysylltu wedi'u teilwra sy'n ennyn diddordeb rhanddeiliaid allweddol.
- Sicrhau gohebiaeth ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ym mhob cynnwys allanol yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Gweithio gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, yn ôl yr angen er mwyn helpu i gefnogi cynlluniau cyfathrebu mewnol allweddol yn unol â'n strategaeth ymgysylltu â chydweithwyr.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid a chydweithwyr i ddatblygu prosesau a pholisïau cadarn ac effeithiol ar gyfer yr holl weithgareddau Cyfathrebu a Marchnata.
- Cynnal a datblygu'r berthynas rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a rhanddeiliaid allweddol ym maes marchnata a chyfathrebu.
- Cydlynu a dadansoddi arolygon i randdeiliaid
- Addasu cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu yn unol ag arferion gorau, cynnydd ac adborth gan randdeiliaid er mwyn parhau i fod yn hyblyg, yn rhagweithiol ac yn ymatebol.

### Ymgysylltu â'r Cyfryngau a Materion Cyhoeddus

- Llywio ac arwain y broses o ymgysylltu â'r cyfryngau, gan fynd ati'n rhagweithiol i wella a diogelu enw da'r sefydliad.
- Meithrin a rheoli cysylltiadau â'r cyfryngau yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Datblygu a gweithredu strategaethau ac ymgyrchoedd ar y cyfryngau sy'n tynnu sylw at effaith.
- Goruchwylio ymatebion ar y cyfryngau, gan sicrhau bod ymholiadau'n cael eu trin yn amserol ac yn strategol.
- Cynnal goruchwyliaeth olygyddol o bresenoldeb digidol a chyfryngau cymdeithasol y sefydliad, gan sicrhau bod y negeseuon yn afaelgar ac yn gydlynol.
- Datblygu deunydd briffio a sylwebaeth strategol, a llunio erthyglau arweinyddiaeth meddwl, darnau barn a datganiadau sefyllfa.

- Cefnogi rhaglen effeithiol yn ymwneud ag ymgysylltiad gwleidyddol.
- Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr, cefnogi'r gwaith o gryfhau partneriaethau ar draws y llywodraeth, y GIG, diwydiant, gofal cymdeithasol a'r byd academaidd i gynyddu ein heffaith.

**Arweinyddiaeth ac Eiriolaeth**

- Darparu arweinyddiaeth barchus a thosturiol, gan ysbrydoli perfformiad uchel.
- Cyfrannu at waith cynllunio strategol yr uwch dîm rheoli a'r sefydliad, gan feithrin cydweithio traws-swyddogaethol a chysylltiadau cadarnhaol â chymheiriaid yn yr uwch dîm rheoli.
- Hyrwyddo gwyddorau bywyd a'r cyfleoedd i Gymru, gan ddarparu arweinyddiaeth gwirioneddol a dylanwadol ar gyfer gweithgareddau cydweithredol sy'n ymwneud â chyfathrebu a marchnata.
- Hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau bod y gwerthoedd hyn wedi'u gwreiddio yn ein cyfathrebiadau.

**Rheoli Pobl**

- Mentora a datblygu tîm sy'n perfformio'n dda, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth ac ymddygiad tîm cadarnhaol.
- Monitro perfformiad y tîm a rhoi cyfleoedd datblygu i wella perfformiad unigolion a'r tîm.
- Hwyluso cyfathrebu a chydweithio o fewn y tîm a chyda thimau eraill
- Cynnal adolygiadau perfformiad yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau strategol.
- Hyrwyddo diwylliant o ddysgu, gan ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus ac arloesedd o ran dulliau ac allbynnau.
- Arwain ar recriwtio a chynefino is-weithwyr uniongyrchol.

**Rheoli Adnoddau a Chyllid**

- Rheoli'r gyllideb gan sicrhau bod yr adnoddau a'r galluoedd cyfathrebu a marchnata mwyaf priodol yn cael eu defnyddio i ddarparu gwerth yn effeithiol.
- Goruchwylio'r gwaith o gyrchu a rheoli contractau, gan sicrhau cydymffurfiaeth ac effeithlonrwydd.
- Goruchwylio'r gwaith o reoli system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) y sefydliad.

**Rheoli ac Adrodd ar Berfformiad**

- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod y tîm marchnata a chyfathrebu yn cyflawni'r targedau a'r amcanion y cytunwyd arnynt.
- Cynnal metrigau, dangosyddion perfformiad allweddol a defnyddio offer dadansoddi i fesur effeithiolrwydd y strategaeth farchnata a chyfathrebu, gan ganiatáu ar gyfer gwelliannau iteraidd yn seiliedig ar wybodaeth sy'n cael ei harwain gan ddata.
- Llunio adroddiadau yn rheolaidd sy'n rhoi dadansoddiad gweithredol o enillion ar fuddsoddiad.
- Rhoi cyngor ac arweiniad ar archwilio a mabwysiadu datrysiadau newydd, ee deallusrwydd artiffisial sy'n cyfrannu at greadigrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol

y sefydliad, gan sicrhau bod pob rhaglen yn cyd-fynd â chanllawiau a safonau moesegol y sefydliad.

**Cyffredinol**

- Hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd a nodau'r Cwmni.

- Cyflawni cyfrifoldebau'r swydd bob amser gan roi sylw dyledus i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant a gwerthoedd sefydliadol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Cynnal safon uchel o ran cywirdeb yng nghyswllt materion ariannol, personél a phroffesiynol, cynnal cysylltiadau da â chydweithwyr a phartneriaid allanol, a gweithredu'n unol â chod ymddygiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Cynnal perthynas waith effeithiol gyda thîm a phartneriaid ehangach Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gan rannu gwybodaeth ac adborth i sicrhau dull integredig o gyflawni nodau ac amcanion (allbynnau, canlyniadau a manteision), a chefnogi cysylltedd rhwng pob agwedd ar waith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a chynnal cyfrinachedd; gan gynnwys pob agwedd ar ofynion rheoli data a gwybodaeth; casglu, storio, dosbarthu, archifo ac, yn y pen draw, dinistrio gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a chyflawni, a monitro, adrodd a darparu tystiolaeth o berfformiad.

## MANYLEB Y PERSON

| Rhinweddau | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau a gwybodaeth** | Cymhwyster ar lefel gradd neu gyfatebol | Gradd a ffefrir ym maes cyfathrebu a marchnata (ee marchnata, gweinyddu busnes, rheoli, hysbysebu, newyddiaduraeth, a/neu gyfathrebu) |
| | Aelodaeth o gorff proffesiynol ym maes marchnata neu gyfathrebu (ee, CIM neu CIPR). Tystiolaeth ddiweddar o DPP. | |
| | Awyddus i ddeall tirwedd gwyddorau bywyd yng Nghymru. | Dealltwriaeth o'r dirwedd gwyddorau bywyd ac iechyd ryngwladol. |
| | Dealltwriaeth o safonau'r Gymraeg gan sicrhau cydymffurfiaeth a darpariaeth effeithiol ar draws yr holl gyfathrebiadau allanol. | Gwerthfawrogiad o'r cyd-destun gwleidyddol ar gyfer gwyddorau bywyd |
| **Profiad** | Profiad amlwg o ddatblygu a gweithredu strategaethau marchnata a chyfathrebu dylanwadol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Profiad o arwain a datblygu tîm sy'n perfformio'n dda | |
| | Hanes llwyddiannus o ddatblygu sbectrwm eang o gysylltiadau / ymgyrchoedd rhagweithiol yn y cyfryngau | Rhwydwaith sefydledig a hanes llwyddiannus o weithio gyda chyfryngau perthnasol |
| | Gallu amlwg i ddatblygu perthnasoedd cryf ar draws y sefydliad er mwyn galluogi cydweithio, rhannu cyngor a darparu arweinyddiaeth gyfeiriadol lle bo angen. | Profiad o feithrin perthnasoedd cydweithredol ac ymddiriedaeth uchel, a rheoli llawer o randdeiliaid ar lefel uwch |
| | Profiad o farchnata a chyfathrebu digidol. | Datblygu gwefannau sy'n seiliedig ar ddadansoddiadau, profiad a datblygu cynnwys ar gyfer SEO. |
| | | Profiad cryf o'r cyfryngau y telir amdanynt, gan gynnwys ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol y telir amdanynt, PPC a Google Display. |
| | Gallu amlwg i gyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfaoedd amrywiol. | Profiad o gynghori uwch arweinwyr ar faterion cyhoeddus. |
| | Profiad o gysylltiadau cyhoeddus rhagweithiol, cyfathrebu adweithiol a chyfathrebu mewn argyfwng. | Profiad o Farchnata a Chyfathrebu yng nghyd-destun y sector cyhoeddus |
| | Arbenigedd mewn gwneud penderfyniadau, adrodd a dadansoddi tueddiadau sy'n seiliedig ar ddata. | Gallu amlwg i ddefnyddio offer dadansoddi data er mwyn olrhain, mesur ac optimeiddio perfformiad marchnata, gan ddarparu gwybodaeth y mae modd gweithredu arni i lywio penderfyniadau strategol a gwella ROI. |
| | Profiad o weithredu gohebiaeth ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau cydymffurfiaeth a darpariaeth effeithiol ar draws yr holl gyfathrebiadau allanol. | |
| **Sgiliau a Nodweddion** | Sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn, ar lafar ac ar bapur, gyda sgiliau rhagorol o ran ysgrifennu a golygu. | |
| | Sgiliau cryf o ran dadansoddi a datrys problemau, gyda meddylfryd strategol sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau. | |
| | Gallu datblygu a chyfleu egwyddorion dylunio cymhleth, cysyniadau lleoli brand, llwyfannau creadigol a negeseuon er mwyn meddwl, datblygu a lansio ymgyrchoedd integredig, | |

| | | |
|---|---|---|
| | llwyfannau negeseuon a nodweddion digidol yn llwyddiannus. | |
| | Cyfathrebwr cryf gyda gallu amlwg i feithrin a chynnal perthnasoedd a rhwydweithiau amrywiol ac eang gyda llawer o randdeiliaid. | Gallu meithrin perthnasoedd cydweithredol ac ymddiriedaeth uchel, a rheoli llawer o randdeiliaid ar lefel uwch. |
| | Sgiliau trefnu cryf i reoli ymgyrchoedd a gweithgareddau grymus ar yr un pryd, gan gydbwyso cyfeiriad strategol â chyflawni'n weithredol er mwyn cael canlyniadau llwyddiannus. | Medrus iawn ym maes TG a digidol, gan gynnwys profiad uwch gyda Microsoft Teams, SharePoint a Planner i reoli prosiectau'n effeithiol, cydweithio â thimau traws-swyddogaethol, a symleiddio cyfathrebu. |
| | Mwynhau rheoli, datblygu, hyfforddi a mentora tîm. | |
| | Awyddus i ddatblygu a gweithredu arferion gorau a'r datblygiadau diweddaraf. | |
| **Arall** | Medrus iawn wrth ddelio'n rhwydd â nifer o derfynau amser, newid blaenoriaethau ac unrhyw newidiadau cyflym. | Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol (Ar lefelau 1 i 5 mewn deall, siarad, darllen ac ysgrifennu) |
| | Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol yn annibynnol. | |

## GOFYNION YCHWANEGOL

- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gael gwiriad diogelwch gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd.
- Bod yn barod i weithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Hunangynhaliol o ran defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Trwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun. Fodd bynnag, fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gallu gwneud trefniadau teithio addas o fath arall.

Nid bwriad y disgrifiad swydd yw cynnwys pob agwedd ar y swydd, ond yn hytrach rhoi diffiniad clir o bwrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau sylfaenol y gwaith.

Yn ogystal â'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad hwn, mae disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a meithrin ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol, neu feichiogrwydd a mamolaeth.